

Dylunio polisïau amaethyddol: ystyriaethau cyd-destunol Briff ymchwil gwadd

Awst 2022



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
ymchwil.senedd.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 7174**

E-bost: **Katy.Orford@senedd.cymru**

Twitter: **[@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)**

Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**

Tanysgrifiwch: **[Diweddariadau mewn amser real](#)** | **[Diweddariadau wythnosol a misol](#)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2022**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Dylunio polisiau amaethyddol: ystyriaethau cyd-destunol

Briff ymchwil gwadd

Awst 2022

Awduron:

Dr Mary Dobbs (Prifysgol Maynooth) a Dr Ludivine Petetin (Prifysgol Caerdydd).

Trosolwg:

Yn y briff gwadd hwn, mae Dr Mary Dobbs a Dr Ludivine Petetin yn amlinellu sail ar gyfer deall, gwerthuso a datblygu polisiau amaethyddol i Gymru – yn enwedig cymorth ariannol – mewn cyd-destun sy'n esblygu. Mae'r ddogfen hon wedi cael ei chynhyrchu fel rhan o **raglen cyfnewid gwybodaeth** y Senedd.

Barn yr awduron a geir yma, nid barn Ymchwil y Senedd na'r Senedd ei hun. Mae'r cynnwys yn seiliedig i raddau helaeth ar lyfr yr awduron, Brexit and Agriculture (2022), sydd ar gael i Aelodau o'r Senedd yn y Llyfrgell.



Crynodeb

Barn yr awduron yw bod angen diweddarau polisiâu amaethyddol ledled y DU, a hynny ar frys. Mae'r adolygiad o bolisi amaethyddol Cymru yn heriol ac yn arwyddocaol o ystyried y penderfyniad i ymadael â'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) yn dilyn Brexit, a'r newidiadau o ran mynediad i'r farchnad rhwng y DU, yr UE a gweddill y byd.

Mewn papur briffio arall a gyhoeddwyd gan Ymchwil y Senedd (ym mis Mehefin 2022), cafwyd amlinelliad o'r modd yr oedd polisi amaethyddol Cymru yn cael ei lywio i raddau helaeth gan y PAC, ac yn ddibynnol arno am gyllid. Roedd hyn yn cynnwys fframwaith polisi sylfaenol a oedd yn cwmpasu dwy 'golofn' o gymorth ariannol: roedd colofn 1 (cymorth incwm) yn cynnwys y **Cynllun Taliad Sylfaenol**, ac roedd colofn 2 (cymorth datblygu gwledig) yn cynnwys **cynlluniau amaeth-amgylcheddol**. Roedd y fframwaith hefyd yn cwmpasu elfennau fel **trawsgydymffurfio**, ac roedd yn gweithredu ochr yn ochr â chyfundrefnau bwyd ac amgylcheddol yr UE, a mynediad i'r farchnad fel aelod o'r UE.

Fodd bynnag, mae rhywfaint o hyblygrwydd hefyd i Aelod-wladwriaethau o ran sut y maent yn rhoi'r PAC ar waith. Roedd hyn yn arwyddocaol yng nghyd-destun y DU, gan fod amaethyddiaeth wedi'i datganoli, ynghyd â meysydd cysylltiedig yn ymwneud â'r amgylchedd, bwyd ac iechyd (trafodir cafeatau isod). At hynny, mae natur ffermio a'r cyd-destun y mae'n gweithredu ynddo yn amrywio'n sylweddol ar draws y DU. Felly, mae polisi ac arferion amaethyddol eisoes yn amrywio ar draws y DU - er gwaethaf yr elfennau cyffredin a sefydlwyd drwy'r PAC.

Felly, rhaid i Gymru ystyried yn ofalus sut i ddatblygu polisi amaethyddol addas, wedi'i deilwra, gan roi ystyriaeth i ddatblygiadau mewn mannau eraill (ar draws y DU ac yn yr UE yn arbennig), gan gynnwys newidiadau ehangach a grëwyd neu a sbardunwyd gan Brexit.

Mae'r papur briffio hwn yn amlinellu rhai o'r materion allweddol y dylid eu hystyried wrth lunio polisi amaethyddol i Gymru. Mae'n trafod agweddau ar y sector amaeth yng Nghymru, gan gynnwys y gyfran uchel iawn o dir a ddefnyddir ar gyfer ffermio (tua 90 y cant), **natur y tir a natur y ffermio a wneir** (e.e. lefel sylweddol o ffermio defaid yn yr ucheldiroedd), a **rolau amlochrog amaethyddiaeth** mewn cymdeithas - rolau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol.

Mae hefyd yn tynnu sylw at rai o'r **paramedrau cyfreithiol a gwleidyddol** sy'n berthnasol i bolisi amaethyddol. Mae'r **ystyriaethau domestig** yn cynnwys

dibyniaeth ar Drysorlys y DU am gyllid amaethyddol, effeithiau Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 a fframweithiau cyffredin sy'n esblygu. **Yn rhyngwladol**, mae lluo o gyfreithiau rhwymol, gan gynnwys cyfreithiau Sefydliad Masnach y Byd (WTO), cyfreithiau amgylcheddol a chytundebau masnach unigol. Mae darpariaethau Deddf Amaethyddiaeth 2020 y DU ar **gymorth amaethyddol**, ynghyd â Chytundeb Amaethyddiaeth Sefydliad Masnach y Byd, hefyd yn allweddol. Mae'r papur briffio hwn yn ystyried y **berthynas sy'n datblygu gyda'r UE**, gan ganolbwyntio ar y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE. Mae'n ymdrin â materion sy'n ymwneud â **llinellau sylfaen rheoleiddio, bregusrwydd ac aflonyddwch** yn y maes polisi hwn, a'r **angen am wytnwch**. Yna, mae'n amlinellu rhai **ystyriaethau** y bydd angen eu monitro'n ofalus yn y dyfodol.

Cyda'i gilydd, nod yr ystyriaethau hyn yw helpu Cymru i ddylunio polisi amaethyddol cyfannol, gwydn, sydd wedi'i deilwra.

Cynnwys

Amaethyddiaeth yng Nghymru	1
Rôl amaethyddiaeth.....	1
Natur ffermio yng Nghymru	2
Cyfyngiadau cyfreithiol ac ymarferol cyffredinol ar bwerau datganoledig?	3
Dibyniaeth ar Drysorlys y DU a rheolaethau ar gymorth.....	3
Deddf Marchnad Fewnol y DU – cydnabyddiaeth gilyddol ynteu polisi datganoledig?.....	4
Fframweithiau Cyffredin – offerynnau posibl ar gyfer cydweithio?.....	4
Rheoli cymorth ariannol ar gyfer amaethyddiaeth: Deddf Amaethyddiaeth 2020 a Chytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth.....	6
Y Blwch Oren.....	6
Y Blwch Glas	6
Y Blwch Gwyrdd	7
Rheolaethau'r DU ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth – Deddf Amaethyddiaeth 2020.....	8
Rhwymedigaethau eraill o ran masnach ryngwladol a'r amgylchedd	8

Cysylltiadau â'r UE - cyfraith yr UE a ddargedwir, Protocol Gogledd Iwerddon a'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu	10
Llinellau sylfaen rheoleiddio	12
Heriau ac uchelgais	13
Bregusrwydd ac aflonyddwch yn y sector	13
Uchelgais? Tuag at sector amaeth gwydn	13
Casgliadau	14

Amaethyddiaeth yng Nghymru

Mae amaethyddiaeth yn fater amlochrog sydd o bwysigrwydd sylfaenol ledled y DU. Fodd bynnag, mae'r rôl a chwaraeir gan amaethyddiaeth, a natur yr amaethyddiaeth a geir, yn amrywio'n sylweddol rhwng y gwledydd datganoledig ac o fewn iddynt. Wrth ddylunio polisiâu amaethyddol, rhaid i Gymru ystyried ei chyd-destun penodol ei hun – er enghraifft, natur y dirwedd dan sylw.

Rôl amaethyddiaeth

Mae ffermio yn cyfrif am **71 y cant o ddefnydd tir y DU**, a Chymru sydd â'r gyfran uchaf, gyda **90 y cant o dir Cymru** yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ffermio (gan gynnwys tir pori garw comin). Er enghraifft, gall amaethyddiaeth gyfrannu at gynhyrchu bwyd, diogelwch a sofraniaeth; gall warchod a gwella ecosystemau; gall wella bywyd cymunedol; gall feithrin gweithgareddau economaidd sy'n seiliedig ar fwyd; a gall ddarparu incwm i unigolion sydd ag adnoddau ariannol cyfyngedig fel arall.

Mae'n chwarae rôl bwysig yng Nghymru. Er enghraifft, mae **cyfraniad economaidd y sector amaeth yng Nghymru** yn fwy na'r cyfartaledd cenedlaethol (Gwerth Ychwanegol Crynswth o 0.7 y cant ar gyfer Cymru yn 2019, o gymharu â 0.5 y cant ar gyfer y DU). Mae gan y sector amaeth **oblygiadau pwysig** hefyd o ran y sector twristiaeth a'r sector bwyd a diod yng Nghymru. Yn ogystal, er bod Cymru (ynghyd â'r DU) yn parhau i fod yn **fewnforiwr bwyd-amaeth net**, mae amaethyddiaeth ddomestig yn gwneud cyfraniad sylweddol o ran darparu'r math o fwyd sy'n hanfodol ar gyfer mynd i'r afael â materion brys fel **tlodi bwyd** a diogelwch bwyd. Felly, wrth ddylunio polisi amaethyddol a threfniadau cymorth ariannol, mae angen rhoi ystyriaeth i ffermwyr unigol, y gymuned ehangach a thu hwnt.

Ar yr un pryd, mae gan amaethyddiaeth y potensial i greu effeithiau negyddol – er enghraifft, ar yr amgylchedd, ar iechyd y cyhoedd ac ar gymunedau. Gall polisiâu amaethyddol waethygu'r sefyllfa hon, fel yr amlygwyd gan fersiynau cynnar y PAC, a oedd yn cymell gorgynhyrchu, gan arwain at ffermio dwys a **dirywiad sylweddol yn yr amgylchedd**. Yng nghyd-destun yr argyfyngau natur a hinsawdd, mae angen cymryd gofal wrth geisio meithrin canlyniadau dymunol.

Natur ffermio yng Nghymru

Mae ffermio ar draws y DU **yn amrywio'n sylweddol**.

Mae gan **Gymru** gyfran is o ffermydd mawr na Lloegr. Mae gan tua 27 y cant o ffermydd yng Nghymru o leiaf 50 hectar o dir (o gymharu â thua 40 y cant yn Lloegr), ac mae gan tua 14 y cant o ffermydd yng Nghymru 100 hectar o dir neu fwy (o gymharu â thua 24 y cant yn Lloegr).

Mae'r **math o ffermio a wneir yn wahanol iawn**. Mae Cymru'n cyfrif am 9 y cant o dir amaethyddol y DU, ond yng Nghymru mae 27 y cant o ddefaid y DU (bron i 9 miliwn ohonynt, allan o gyfanswm o 32.7 miliwn), 5 y cant o'i dofednod, a dim ond 0.6 y cant o'i moch (30,000 ohonynt, allan o gyfanswm o dros 5 miliwn). Mae'r amrywiadau hyn yn cael eu hadlewyrchu hefyd yn natur y defnydd tir, gyda thir amaethyddol Cymru yn cyfrif am 17 y cant o dir pori parhaol y DU, 14 y cant o laswelltir y DU sy'n llai na phump oed, a dim ond 2 y cant o dir amaethyddol y DU ar gyfer cnydau a garddwriaeth.

Mae'r amrywiadau hyn yn cael eu dylanwadu gan ffactorau hanesyddol a'r cyd-destun cyfredol. Mae ffermio yn cael ei effeithio gan amodau hinsoddol, amgylcheddol, daearyddol a chymdeithasol lleol. Ledled y DU, mae tirweddau, agweddau, yr amgylchedd, diwylliant, seilwaith a'r economi yn amrywio i raddau gwahanol. Mae oddeutu **80 y cant o dir amaethyddol Cymru** yn cael ei ystyried yn 'ardaloedd llai ffafriol'. Golyga hyn fod ganddo botensial is na'r cyfartaledd o ran allbwn, a hynny yn sgil effeithiau nodweddiol mynyddig y tir, y pridd a'r tywydd. O'r cyfanswm hwnnw, mae cyfran o oddeutu 80 y cant o dan anfantais ddifrifol. Mae hyn yn cyferbynnu'n llwyr â'r sefyllfa yn **Lloegr, lle ystyrir bod 16 y cant o'r tir yn unig yn ardaloedd llai ffafriol**. Nid yw hyn yn golygu na ellir sicrhau allbynnau gwerthfawr a buddiol, ond mae'n effeithio ar natur ffermio, maint yr allbwn, hyfywedd economaidd a chymunedau. Felly, ffermydd bach ar yr ucheldiroedd sy'n cadw gwartheg a defaid yw'r ffermydd mwyaf cyffredin yng Nghymru, ac mae **dibyniaeth uchel ar gymorth incwm o'r PAC**.

Mae amaethyddiaeth Cymru (a'r DU) yn ddibynnol ar fewnforion, gan gynnwys hadau, porthiant, gwrtaitaith a pheiriannau. Mae allforion hefyd yn rhan allweddol o'r economi ffermio, fel yr amlygwyd gan **ddata o 2017** ar gig oen o Gymru. Tra bod 5 y cant yn cael ei fwyta yng Nghymru, mae 55-60 y cant yn cael ei fwyta yng ngweddill y DU. Mae'r 35-40 y cant sy'n weddill yn cael ei allforio, gyda 95 y cant o'r allforion hyn yn mynd i'r UE. Mae'r data ar allforion ers hynny wedi **amrywio'n sylweddol**, yn sgil effeithiau Brexit a COVID-19. Er bod angen cymorth ariannol gan y PAC a chan Lywodraethau Cymru a'r DU, mae'r cymorth hwn yn arwain at fanteision economaidd yn ddiweddarach, yn ogystal â darparu bwyd yn ddomestig.

Un enghraifft glir o'r agweddau amrywiol tuag at ffermio ar draws y DU yw'r agwedd at gnydau a addaswyd yn enetig (GM) a biotechnolegau cysylltiedig fel **golygu genynnau** (er enghraifft, **ailadroddiadau palindromig byr wedi'u clystru'n rheolaidd, sef CRISPR**). Mae Llywodraeth y DU yn hyrwyddo technolegau o'r fath. Yn dilyn **ymgyngoriad a gynhaliwyd yn 2021**, mae **Bil** wedi'i gyflwyno sy'n cynnig eithrio golygu genynnau o gyfyngiadau ar gnydau GM yn Lloegr. Byddai hyn yn effeithio ar Gymru yn sgil strwythurau marchnad fewnol y DU ac, yn benodol, yn sgil Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020, fel y nodir isod. Fodd bynnag, gwnaeth **Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon** fanteisio ar **drefniant optio allan yr UE** (a oedd yn caniatáu i Aelod-wladwriaethau'r UE wahardd tyfu cnydau GM a awdurdodwyd gan yr UE, naill ai'n rhannol neu'n gyfan gwbl). Mae Cymru'n rhan o **Rwydwaith y Rhanbarthau di-GMO**.

Cyfyngiadau cyfreithiol ac ymarferol cyffredinol ar bwerau datganoledig?

Rhaid i bolisi amaethyddol weithio o fewn paramedrau cyfreithiol ac ymarferol. Er enghraifft, mae terfynau pwerau datganoledig yn cael eu hadlewyrchu yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel y'i diwygiwyd), Confensiwn Sewel ac, yn y pen draw, sofraniaeth seneddol y DU. Hefyd, mae Deddf yr UE (Ymadael) 2018 wedi cael effaith eang ar bwerau a pholisi datganoledig. Tynnir sylw yma at dri phwynt cydgysylltiedig sy'n ymwneud â dibyniaeth ar gyllid, Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020, a fframweithiau cyffredin.

Dibyniaeth ar Drysorlys y DU a rheolaethau ar gymorth

Mae Cymru'n dibynnu ar Drysorlys y DU am gyllid amaethyddol, ac mae'r cyllid hwn yn hanfodol ar gyfer datblygu, gweithredu a monitro polisi amaethyddol. Tra'r oedd y DU yn rhan o'r UE, roedd cyllid y DU ar gyfer polisi amaethyddol wedi'i glustnodi. **Ni fwriedir** i gyllid amaethyddol gael ei bennu yn y dyfodol yn ôl **fformiwla Barnett**, ac mae adroddiad Bew yn amlinellu nifer o opsiynau yn hynny o beth. Serch hynny, **nid yw'n glir** pa mor fanwl gywir y caiff ei gyfrifo. Er enghraifft, nid yw'n glir a fydd yn dibynnu, i bob pwrpas, ar gymeradwyaeth gan San Steffan, neu a fydd yn cael ei glustnodi o gyllid arall o dan y grant bloc. Ers i gyllid amaethyddol yr UE ddod i ben, bu **anghytuno rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU** ynghylch lefel y cyllid newydd a ddyrennir i Gymru ar gyfer amaethyddiaeth.

Mae Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 hefyd yn galluogi Gweinidogion y Goron i **ddarparu cymorth ariannol** neu **reoleiddio cymorthdaliadau ystumiol neu**

niweidiol, gan gynnwys o fewn y gwledydd datganoledig. Gallai hyn arwain at **leihau'r cyllid a ddarperir i'r Llywodraethau datganoledig**, a gallai effeithio ar bolisïau. Cafodd y drefn honno ei hategu yn ddiweddar gan **Ddeddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022**, sy'n cyflwyno meini prawf ar gyfer hawlio cymorth.

Deddf Marchnad Fewnol y DU - cydnabyddiaeth gilyddol ynteu polisi datganoledig?

Dyma ddyfyniad o'r **dystiolaeth ysgrifenedig** a gyflwynwyd gennym i Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd ym mis Mawrth 2022, fel rhan o'i ymchwiliad i fframweithiau cyffredin (Saesneg yn unig):

The UK Internal Market Act 2020 contains 'market access' principles of mutual recognition (Section 2) and non-discrimination (Section 5) that ... apply across Great Britain (and, to some extent, Northern Ireland). ... [For] mutual recognition, the Act provides that any product produced or imported into one part of Great Britain and permitted to be used or sold there would be permitted to be used or sold anywhere across Great Britain... [This is] without being bound by new 'relevant requirements' (introduced since the Act came into force), such as production methods, environmental standards, identification or tracing procedures and food characteristics (Section 3)...

Consequently, in seeking to maintain an open internal UK market, this principle impacts significantly on the effectiveness of any devolved nation's policies.

Er enghraifft, pe bai Lloegr yn caniatáu gwerthu bwyd neu blanhigion wedi'u golygu'n enynnol heb gyfyngiadau neu labeli arbennig, ni fyddai Cymru'n gallu cyflwyno rheolaethau newydd i atal mewnfario a gwerthu bwyd neu blanhigion o'r fath (hyd yn oed pe bai'n gwahardd golygu genynnau ar ei thiriogaeth):

There are some exclusions under Section 10 & Schedule 1, e.g. to prevent the spread of pests and diseases that pose threats to human, animal or plant health. This is a narrow list and can only be amended by the Secretary of State... including now under Section 10(3):

to give effect to an agreement that (a) forms part of a common framework agreement, and (b) provides that certain cases, matters, requirements or provision should be expressly excluded from the application of market access principles.

Fframweithiau Cyffredin - offerynnau posibl ar gyfer cydweithio?

Mae'r **Fframweithiau Cyffredin** yn fater sy'n codi mewn perthynas â meysydd lle mae pwerau datganoledig yn cael eu dychwelyd o'r UE (ac felly lle'r oedd fframwaith ar gyfer yr UE gyfan yn bodoli eisoes i ryw raddau). Y cwestiynau sy'n

codi yw: a ddylid cael fframwaith ar gyfer y DU gyfan (neu fframwaith trawsffiniol arall) mewn perthynas â'r meysydd hyn, ac os felly, pa fath o fframwaith?

Sefydlwyd egwyddorion a meini prawf gan Lywodraeth y DU a'r Llywodraethau datganoledig, gan gynnwys parchu datganoli, a'r ffaith bod angen datblygu unrhyw fframweithiau mewn modd cydweithredol ar draws y pedair gwlad a chan ymgysylltu â rhanddeiliaid (er gwaethaf y **feirniadaeth** a fynegwyd ynghylch y modd y cafodd y broses ei gweithredu). Cafodd **ymarfer mapio** ei gynnal a'i **ddiwygio sawl gwaith** er mwyn nodi pa fframweithiau cyffredin y bernir eu bod yn briodol.

Mae'r meysydd lle y ceir fframweithiau cyffredin dros dro (gan gynnwys Concordatiau) yn cynnwys (ymhlith eraill) **cymorth amaethyddol** (yn ymwneud yn bennaf â chyfathrebu agored a mesurau argyfwng), **gwrtait** (cyfathrebu agored, ceisio cysoni lle bo modd a chyflwyno canllawiau ar ddefnyddio pwerau newydd), ac **iechyd a lles anifeiliaid** (yn yr un modd, yn ymwneud â chyfathrebu agored, ond hefyd cydymffurfio â safonau sylfaenol, rheoli achosion o ymwahanu a cheisio dulliau cyffredin). Mae'r ddau gategori cyntaf yn ymgorffori'n benodol y syniad o **osgoi unrhyw beth annisgwyl** - hynny yw, cyfathrebu agored a chynnar pan fo bwriad i ymwahanu.

O ran **iechyd a lles anifeiliaid**, er bod pwerau datganoledig yn cael eu dargadw ac er nad yw'r potensial cyfreithiol ar gyfer ymwahanu wedi newid fawr ddim, y bwriad yw y dylai fod cyfiawnhad dros achosion o ymwahanu:

there should be an assessment of the impact on the functioning of the UK Internal Market, the ability of the UK to negotiate/implement international trade agreements and other international obligations; and any divergent approaches must not change baseline standards in a manner harmful to biosecurity or welfare.

Mewn egwyddor, golyga hyn, er enghraifft, na fyddai modd i Loegr ymwahanu er mwyn gostwng safonau i hwyluso masnach, tra fyddai modd i Gymru gael caniatâd i ymwahanu er mwyn cynyddu safonau neu lefelau diogelu, ond byddai angen cynnal asesiad effaith (gan gynnwys ar weithrediad cytundebau masnach). Mae'r Concordatiau hefyd yn mynd i'r afael â'r broses o ddatrys anghydfodau.

Mae'n werth nodi bod y fframweithiau cyffredin yn cynnig y potensial i gyfyngu ar y broses o gymhwyso egwyddorion Deddf Marchnad Fewnol y DU (gan gynnwys cydnabyddiaeth gilyddol) a/neu helpu'r broses o lywio datblygiad polisi ar draws y DU (er enghraifft, er mwyn gwella safonau a lleihau'r risg o gael ras i'r gwaelod o ran dadreoleiddio). Felly, gall y broses o'u dylunio gefnogi polisiau datganoledig yn sylweddol.

Rheoli cymorth ariannol ar gyfer amaethyddiaeth: Deddf Amaethyddiaeth 2020 a Chytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth

Un o amcanion allweddol **Cytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth (y Cytundeb ar Amaethyddiaeth)** yw lleihau cymorth amaethyddol drwy amrywiaeth o fecanweithiau. Mae'r Cytundeb ar Amaethyddiaeth yn gwahaniaethu rhwng tri 'Blwch' cymorth: Oren, Glas a Gwyrdd. Er bod y Cytundeb ar Amaethyddiaeth a darpariaethau cysylltiedig yn Neddf Amaethyddiaeth 2020 y DU yn gosod rhai cyfyngiadau ar gynlluniau cymorth ariannol y gwledydd datganoledig (ac er bod gofyn ceisio sicrhau cydymffurfiaeth), mae cryn hyblygrwydd yn bodoli o hyd. Mae'r adran hon yn deillio o'n llyfr, Brexit and Agriculture, ac fe'i trafodir yn fanylach yn y llyfr hwnnw, rhwng tudalennau 50 a 57.

Y Blwch Oren

Ystyrir bod cymorth yn y Blwch Oren yn ystumio masnach (er enghraifft, cymorth cysylltiedig o ran incwm neu gynnyrch, gan gynnwys cymorth ar gyfer mewnbynnau amaethyddol fel trydan neu hadau). Caniateir cymorth hyd at lefel benodol ar gyfer pob aelod o Sefydliad Masnach y Byd (mae hyn yn amrywio ar draws yr aelodau a'r mathau o gymorth dan sylw). Yn gyffredinol, mae gan aelodau yr hawl i ddau fath o eithriad de minimis. Yn gyntaf, cymorth domestig sy'n benodol i gynnyrch, nad yw'n fwy na 5 y cant o gyfanswm gwerth math penodol o gynnyrch amaethyddol a gynhyrchir gan wlad. Yn ail, cymorth domestig nad yw'n benodol i gynnyrch, nad yw'n fwy na 5 y cant o gyfanswm cynnyrch amaethyddol gwlad. **Mae Matthews yn dadlau** na fyddai'r DU yn ystyried bod terfynau de minimis ar gymorthdaliadau yn rhy gyfyngedig yn sgil lefel bresennol y cymorth.

Y Blwch Glas

Mae cymorth yn y Blwch Glas yn edrych yn debyg i daliadau yn y Blwch Oren. Yn bwysig, fodd bynnag, mae'r cymorth hwn yn ei gwneud yn ofynnol i ffermwyr gyfyngu ar y broses gynhyrchu ac felly mae'n llai ystumiol. Mae wedi'i eithrio rhag ymrwymiad lleihau; hynny yw, nid oes unrhyw rwymedigaeth ryngwladol ar y DU i gapio neu leihau cymorth o'r fath, gan gynnwys o fewn y gwledydd datganoledig. Mae taliadau'n cael eu gwneud ar sail arwynebedd a chynnyrch sefydlog (nid

prisiau), neu maent yn cael eu gwneud ar lefel o 85 y cant neu lai o'r lefel gynhyrchu sylfaenol neu ar gyfer taliadau da byw, ar sail nifer sefydlog o anifeiliaid.

Y Blwch Gwyrdd

Caniateir taliadau yn y Blwch Gwyrdd heb gap neu ymrwymiad lleihau, os nad ydynt yn cael unrhyw effaith, neu'n cael effaith fach iawn, o ran ystumio masnach neu o ran cynhyrchiant. Rhaid i raglenni canlyniadol gydymffurfio â'r meini prawf sylfaenol a'r rhai sy'n benodol i bolisiau a nodir yn Atodiad 2 o'r Cytundeb ar Amaethyddiaeth. Serch hynny, nid oes diffiniad gwirioneddol ar gyfer taliad yn y Blwch Gwyrdd.

Yn Atodiad 2 o'r Cytundeb ar Amaethyddiaeth, mae paragraffau 5, 6, 12 a 13 o ddiddordeb arbennig, gan eu bod yn cynnig llwybrau ar gyfer cefnogi ffermwyr yng Nghymru ar ôl Brexit. Yn gyffredinol, maent yn gymhleth ac yn amwys ac nid ydynt wedi'u profi'n llawn gerbron corff datrys anghydfodau Sefydliad Masnach y Byd. Yn bwysig, nid yw'r taliadau o dan baragraff 5 (sy'n ymwneud â thaliadau uniongyrchol i gynhyrchwyr) a pharagraff 6 wedi'u cyfyngu i gostau ychwanegol neu golli incwm (o gymharu â pharagraffau 12 a 13), gan alluogi cymorth ariannol mwy pellgyrhaeddol a hyblyg i gynhyrchwyr. Mae paragraff 6 yn ymwneud â chymorth incwm uniongyrchol diderfyn – sydd wedi'i ddatgysylltu'n llawn yn dechnegol o'r broses gynhyrchu o hyd – a dyma'r prif fecanwaith a ddefnyddir gan PAC yr UE. Yn olaf, mae paragraffau 12 a 13 yn arbennig o bwysig ar gyfer cynlluniau Cymru (a'r DU). Dim ond at ddibenion gwrthbwysu'r costau ychwanegol yr eir iddynt (neu'r incwm a gollir) o ganlyniad i gydymffurfio â rhaglenni amgylcheddol neu gadwraeth (paragraff 12), neu o ganlyniad i gael eich lleoli mewn ardal ddifreintiedig (paragraff 13), y maent yn galluogi taliadau. Nid yw'n gwbl glir beth yw ystyr costau ychwanegol neu golli incwm, ac mae hyn yn darparu rhywfaint o hyblygrwydd pellach, er bod dehongliad yr UE a'r DU wedi bod yn gymharol gul hyd yn hyn.

Yn gyffredinol, mae'r Cytundeb ar Amaethyddiaeth yn darparu rheolaethau ar daliadau yn y Blwch Oren, ond yn darparu llai o reolaethau ar daliadau yn y Blwch Glas neu'r Blwch Gwyrdd, unwaith y bydd y meini prawf wedi'u bodloni. Fodd bynnag, mae'r meini prawf hynny'n weddol annelwig ac yn hyblyg, ac nid ydynt wedi'u profi'n ddigonol hyd yma. Mae'n ymddangos bod cryn hyblygrwydd i Gymru wneud taliadau yn y Blwch Glas neu'r Blwch Gwyrdd, yn unol â'r Cytundeb ar Amaethyddiaeth (a rhai taliadau yn y Blwch Oren).

Rheolaethau'r DU ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth - Deddf Amaethyddiaeth 2020

Mae dehongliad y DU o'i hymrwymiaidau rhyngwladol o dan y Cytundeb ar Amaethyddiaeth yn hanfodol yma, fel y trafodir yn Brexit and Agriculture, rhwng tudalennau 103 a 108.

Mae **Adran 44** o Ddeddf Amaethyddiaeth 2020 yn galluogi Llywodraeth y DU i sicrhau bod y DU yn cydymffurfio â Chytundeb Sefydliad Masnach y Byd – gan mai hi sydd â'r cyfrifoldeb terfynol am hyn. Yn debyg i'r drefn flaenorol o dan y PAC, gall y gweinyddiaethau datganoledig bennu eu terfynau eu hunain ar gyfer cymorth a ddarperir yn y Blwch Gwyrdd a'r Blwch Glas, a hynny heb gyfyngiadau gan Lywodraeth y DU. Fodd bynnag, mae'r Ddeddf yn golygu y **gellir pennu'r trothwy ar gyfer taliadau yn y Blwch Oren yn ganolog**, a gallai'r taliadau hynny fod yn is na'r cyfanswm a ganiateir ar gyfer y DU o dan Cytundeb Sefydliad Masnach y Byd. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd bennu **terfynau gwahanol** ar draws y pedair gwlad ar gyfer cymorth yn y Blwch Oren.

Mae **Adran 45** yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i sefydlu'r rheolau ar gyfer dosbarthu cymorth ariannol i flychau Sefydliad Masnach y Byd, ac ar gyfer datrys anghydfodau sy'n ymwneud â dosbarthu. Er y gall y gweinyddiaethau datganoledig fod yn rhan o'r broses ddosbarthu gychwynnol, gall yr Ysgrifennydd Gwladol weithredu fel y cyflafareddwr terfynol. Yn gyffredinol, felly, mae gan Lywodraeth y DU gryn dipyn o reolaethau dros y cymorth a ddarperir yn y Blwch Oren yng Nghymru – gan gynnwys y mathau o gymorth y mae Cymru'n ystyried eu bod yn rhan o flychau eraill, o bosibl.

Rhwymedigaethau eraill o ran masnach ryngwladol a'r amgylchedd

Rhaid i'r DU a Chymru barhau i gydymffurfio â chyfreithiau rhyngwladol perthnasol eraill, y tu hwnt i'r Cytundeb ar Amaethyddiaeth. Mae'r rhain yn esblygu dros amser, gan gynnwys wrth i'r DU gadarnhau cytundebau newydd. Gan fod y rhain yn rhwymo'r gwledydd datganoledig mewn perthynas â materion datganoledig, mae unrhyw fecanweithiau sy'n caniatáu i'r gweinyddiaethau datganoledig gynnig mewnbyn yn werthfawr.

Mae'r cyfreithiau rhyngwladol perthnasol sy'n rhwymo'r DU (a Chymru) yn cynnwys cytundebau masnach ryngwladol cyffredinol – er enghraifft, y Cytundeb Cyffredinol

ar Fasnach a Thariffau (GATT), y Cytundeb ar Fesurau Iechydol a Ffytioiechydol (SPS) a'r Cytundeb ar Rwystrau Technegol i Fasnach (TBT) (sydd i gyd yn rhan o gyfraith Sefydliad Masnach y Byd). Maent hefyd yn cynnwys cytundebau amgylcheddol amlochrog, megis y Confensiwn Bioamrywiaeth, Confensiwn Basel ar wastraff trawsffiniol, a CITES (y Confensiwn ar fasnach ryngwladol mewn rhywogaethau sydd mewn perygl), yn ogystal â Chytundeb Paris ar Newid Hinsawdd a Chytundeb Hinsawdd Glasgow, sef y cytundeb diweddaraf. Er eu bod yn tueddu i fod yn llai penodol ac yn anos eu gorfodi, mae'r rhain yn gyfystyr â chyfraith ryngwladol orfodol. Gan fod partneriaid masnachu posibl hefyd yn debygol o gael eu rhwymo gan y Deddfau hyn, bydd y sefyllfa hon yn cael effaith ar y DU a Chymru, er enghraifft, drwy **waharddiadau cyffredinol yn yr UE** ar dderbyn gwastraff trawsffiniol o wledydd y tu allan i'r UE (datganiad sydd wedi'i or-symleiddio'n fawr), neu drwy Wladwriaethau sy'n manteisio ar eithriadau i hwyluso cyfyngiadau masnach.

Yn ogystal, wrth i'r DU ymrwymo i gytundebau masnach (neu gytundebau amgylcheddol), bydd yn rhwymo ei hun mewn amrywiol ddulliau - er enghraifft, drwy hwyluso mynediad i fewnforion rhad, gan godi safonau mewn rhai sefyllfaoedd, a chan ostwng safonau mewn sefyllfaoedd eraill. Bydd y cytundebau rhyngwladol hyn yn cael effaith sylweddol ar y gwledydd datganoledig a'u polisiâu a'u cyfreithiau. Fodd bynnag, maent yn cael eu negodi gan Lywodraeth y DU, ac **nid oes llawer o gyfleoedd ffurfiol i'r gwledydd datganoledig gynnig mewnbyn uniongyrchol** neu **ddylanwadu ar y broses**. Mae gan **Gomisiwn Masnach ac Amaethyddiaeth y DU**, a sefydlwyd yn ddiweddar, rôl bwysig yn y cyd-destun hwn, a gwelwyd yn yr **adroddiad a gyhoeddwyd ganddo yn 2021** iddo gael **dylanwad** eisoes. Mae ei **rôl ehangach** yn cynnwys darparu adroddiadau ar gytundebau masnach posibl, gan alluogi gwaith craffu seneddol effeithiol. Mae hyn wedi'i hwyluso hefyd gan **ymrwymadau diweddar Llywodraeth y DU**. Mae'n werth nodi, er gwaethaf yr ymrwymadau a wnaed yn flaenorol yn Senedd y DU, **na wnaeth Llywodraeth y DU drefnu amser** ar gyfer cynnal dadleuon Seneddol ynghylch y cytundeb masnach rydd ag Awstralia. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU yn ymgysylltu â'r Llywodraethau datganoledig yn ystod y trafodaethau ar faterion datganoledig, fel arfer **drwy sianeli mwy anffurfiol**.

Cysylltiadau â'r UE – cyfraith yr UE a ddargedwir, Protocol Gogledd Iwerddon a'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu

Er gwaethaf Brexit, mae cysylltiadau cyfreithiol, gwleidyddol ac economaidd sylweddol yn parhau i fodoli rhwng y DU/Cymru a'r UE. Mae'r sefyllfa hon wedi'i hadlewyrchu mewn cyfreithiau allweddol, gan gynnwys Deddf yr UE (Ymadael) 2018 a'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Rhaid i Gymru fod yn ymwybodol o'r goblygiadau cyfreithiol penodol a allai ddeillio o'r rhain, yn ogystal â'r heriau ymarferol o ran sicrhau mynediad i farchnadoedd neu lafur, ac unrhyw fanteision (neu anfanteision) cystadleuol.

Mae Brexit yn golygu nad yw'r DU bellach yn rhan o Undeb Tollau a Marchnad Sengl yr UE, nac ychwaith wedi'i rhwymo gan gyfraith yr UE fel y cyfryw (mae cafeatau yn bodoli, fel yr amlinellir isod). Felly, mae Brexit yn creu cyfleoedd i'r DU (a'r gwledydd datganoledig) ddylunio ei pholisïau ei hun gyda mwy o ryddid. Mae hefyd yn creu **heriau newydd** ar gyfer amaethyddiaeth, gan gynnwys sicrhau mynediad i farchnadoedd a llafur. Un canlyniad amlwg yw'r oedi hir a welir mewn perthynas â chysylltiadau trafnidiaeth rhwng y DU a'r cyfandir (fel porthladdoedd a Thwnnel/Gwennol y Sianel).

Fel y nodwyd, mae cysylltiadau pwysig yn parhau i fodoli mewn meysydd cyfreithiol, gwleidyddol ac economaidd. Roedd y pwyntiau allweddol yn cynnwys parhau â chyfraith yr UE a ddargedwir drwy Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018, er mwyn sicrhau rhywfaint o gydlyniant cyfreithiol a pholisi ar draws ystod eang o feysydd. Yn ogystal, er bod Protocol Gogledd Iwerddon yn sicrhau rhai manteision sylweddol i Ogledd Iwerddon (gan gynnwys mantais gystadleuol o ran mynediad i farchnad yr UE, o gymharu â ffermwyr Prydain Fawr), mae'r Protocol, ar y cyd â Brexit, hefyd yn arwain at fwy o wiriadau a rheolaethau rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain. Mae hefyd yn arwain at fwy o ymwahanu rheoleiddiol rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain – er enghraifft, rhaid i Ogledd Iwerddon barhau i gydymffurfio â rhai o gyfreithiau'r UE ac egwyddorion Deddf Marchnad Fewnol y DU nad ydynt yr un mor berthnasol i Ogledd Iwerddon. Mae'r **goblygiadau masnach a'r goblygiadau amgylcheddol yn sylweddol**. Mae hwn yn ffactor pwysig wrth ystyried masnach gyda Gogledd Iwerddon, a hefyd wrth ystyried cynhyrchion Prydain Fawr sy'n cystadlu â nwyddau Gogledd Iwerddon.

Yn gyffredinol, y prif gytundeb i'w ystyried yw'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE. Mae'r cytundeb hwnnw'n gytundeb fframwaith sy'n **destun adolygiad a gynhelir o leiaf unwaith bob pum mlynedd**. Gellir ei ddatblygu ymhellach gyda chytundebau atodol, neu fel arall gellir ei ddatgymalu, yn dibynnu ar ddymuniadau'r DU a'r UE, gan gynnwys drwy gymal terfynu 12 mis. Fodd bynnag, mae'n gyfraith ryngwladol orfodol. Yn bwysig, mae'n gwahardd tariffau a chwotâu ar gyfer nwyddau sy'n bodloni gofynion rheolau tarddiad, gan alluogi triniaeth ffafriol ar eu cyfer. Heb y gwaharddiad hwnnw, byddai tariffau allanol cyffredinol y DU a'r UE wedi bod yn gymwys i gynhyrchion ei gilydd, gan gynnwys mewnbynnau ac allbynnau bwyd-amaeth.

Fodd bynnag, mae'r cytundeb yn ailgyflwyno trefniadau tollau ffurfiol a rhwystrau eraill heb dariffau arnynt rhwng y DU a'r UE (sef trefniadau prin nad oeddent yn bodoli o gwbl pan fu'r DU yn aelod o'r UE). Mae'r rhain yn cwmpasu ystod eang o elfennau sy'n dibynnu i raddau helaeth ar reolaethau ffiniau. Mae'r rhain yn cynnwys datganiadau cryno ynghylch mynediad ac ymadael, datganiadau diogelwch, trwyddedau cludo amrywiol, gwiriadau a rheolaethau iechydol a ffytoiechydol (SPS). Mae hyn yn arwain at feichiau ychwanegol, sy'n golygu mwy o amser ac arian, yn gofyn am arbenigedd newydd, ac yn aml yn cyflawni dim byd ond darbwyllo pobl nad yw mewnfario ac allfario nwyddau yn apelgar nac yn hyfyw yn ariannol. Er enghraifft, mae'n rhaid i gynhyrchwr o Gymru sy'n allfario i'r UE (neu Ogledd Iwerddon, yn sgil y Protocol) gydymffurfio â phob un o **ofynion** y DU a'r UE, ac i'r gwrthwyneb, e.e. rheoliadau domestig, ochr yn ochr â system y DU ar gyfer mewnfario cynhyrchion, anifeiliaid, bwyd a bwyd anifeiliaid (**IPAFFS**) a System Cofnodi Symudiadau Anifeiliaid rhwng Gwledydd yr UE (**TRACES**).

O ganlyniad, er bod y Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn darparu cyd-destun llawer gwell ar gyfer masnach bwyd-amaeth na'r hyn a fyddai wedi digwydd o dan Brexit heb gytundeb, nid yw'n dileu'r holl heriau sydd wedi dod i'r amlwg. Er enghraifft, mae'r tagfeydd a welir yng Nghaint wedi arwain at oedi hir, sydd, yn ei dro, wedi arwain at sgil-ffeithiau o ran costau, posibilrwydd uwch o nwyddau'n darfod, ac effeithiau andwyol ar les anifeiliaid, ac ati.

Mae'r **Cytundeb Masnach a Chydweithredu** yn cynnwys darpariaethau mewn perthynas â diogelu'r amgylchedd a materion cystadleurwydd, gydag amcan cyffredin i gyrraedd sero net erbyn 2050 (Erthygl 355) a chytundeb i gydweithredu ar les anifeiliaid, ymwrthedd gwrthficrobaidd a systemau bwyd cynaliadwy (Erthyglau 69 ac 84-86). Mae'r **darpariaethau tegwch yn y farchnad** hefyd yn cynnwys rhwymedigaeth dim atchweliad mewn perthynas â materion amgylcheddol (a safonau llafur a chymdeithasol), a'r potensial i gysoni trefniadau

rheoleiddio mewn modd sensitif – mewn achosion lle ceir effaith ar fasnach a buddsoddi. Fodd bynnag, mae'r rhain yn ddarpariaethau eithaf annelwig, sy'n heriol i'w defnyddio. Byddent hefyd yn ychwanegu at y tensiynau gwleidyddol parhaus; hynny yw, **mae'n bosibl y byddent yn dda i ddim yn ymarferol**, ac eithrio i leddfau achosion mwy eithafol o ymwahanu. Yn fwy cyffredinol, mae'n bosibl y gallai **'effaith Brwsel'**, a'r awydd i gael mynediad at farchnad yr UE a chystadlu â nwyddau'r UE, arwain at bwysau sylweddol o fewn y DU i gadw ei safonau yn debyg i safonau'r UE.

Gan fod yr UE yn farchnad hollbwysig ac yn ffynhonnell hanesyddol o lafur a mewnbynnau amaethyddol, mae hefyd yn bwysig ystyried datblygiadau yn yr UE, fel gweithredu Bargaen Werdd yr UE, y strategaeth 'O'r Fferm i'r Fforc', a rhaglen ddiwygio bresennol y PAC.

Llinellau sylfaen rheoleiddio

Cyn Brexit, roedd yn rhaid i ffermwyr ledled y DU gydymffurfio â rheolau'r UE a rheolau domestig ynghylch yr amgylchedd, bwyd ac iechyd dynol. Yn ogystal, o dan y PAC, fel sydd wedi'i nodi **ym mhapur briffio Ymchwil y Senedd ar gymorth amaethyddol**, roedd y drefn draws-gydymffurfio yn berthnasol (er ei bod yn cael ei beirniadu). Gallai ffermwyr gael eu cosbi'n ariannol os nad oeddent yn bodloni gofynion gorfodol statudol neu'n creu amodau amgylcheddol amaethyddol da. Yn dilyn Brexit, mae cwestiynau wedi codi ynghylch lefel y safonau a'r adnoddau sydd ar gael i sicrhau cydymffurfiaeth.

Ar yr olwg gyntaf, ymddengys na fu newid i'r safonau ar draws y DU yn sgil Deddf yr UE (Ymadael) 2018 a chyfraith yr UE a ddargedwir, yn ogystal â'r rhwymedigaeth dim atchweliad yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Ategir hyn yn yr Alban drwy ymrwymïadau i adlewyrchu cyfraith yr UE yn y meysydd hyn, ac yng Nghymru drwy ymgorffori Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Fodd bynnag, mae cyfraith yr UE a ddargedwir wedi'i diwygio, a gallai newid ymhellach yn y dyfodol, gyda **rhai arwyddion** y bydd hyn yn digwydd yn fuan **yn Lloegr**, er enghraifft, drwy'r Bil Rhyddid yn sgil Brexit. **Mae achosion o ymwahanu yn codi**, ac maent yn debygol o gynyddu. Yn ogystal, hyd yn oed pan fo'r safonau'n parhau yr un fath, mae effeithiolrwydd y mesurau hyn yn cael ei danseilio heb **fecanweithiau llywodraethu cyffredinol yr UE**.

Ymddengys fod Lloegr yn **symud i ffwrdd o'r drefn drawsgydymffurfio**, ond bod y gwledydd datganoledig, **gan gynnwys Cymru**, yn debygol o ymgorffori safonau perthnasol yn uniongyrchol mewn polisi amaethyddol neu ddatblygu fersiynau trawsgydymffurfiol. Mae cyfle i ddysgu o'r feirniadaeth a fynegwyd ynghylch y PAC o ran sicrhau cydymffurfiaeth â safonau.

Heriau ac uchelgais

Mae'r adran hon yn amlinellu rhai o wendidau'r sector amaethyddiaeth a'r aflonyddwch y mae'n ei wynebu – sefyllfa sy'n cynyddu gwerth y broses o ddatblygu polisi amaethyddol uchelgeisiol a gwydn.

Bregusrwydd ac aflonyddwch yn y sector

Mae amaethyddiaeth yn faes hynod gymhleth a bregus. Mae angen gwneud **buddsoddiadau sylweddol** mewn tir, offer, llafur, da byw/deunyddiau planhigion, porthiant/gwrtaith a llawer mwy, a hynny dros nifer o dymhorau a hyd yn oed cenedlaethau.

Mae'r diwydiant hefyd yn ddibynnol iawn ar ffactorau allanol – o ran y broses gynhyrchu ac yna ei rôl fel gweithgaredd economaidd (Brexit and Agriculture, t.3). O reidrwydd, felly, mae'n denu buddsoddiadau yn y tymor byr ac yn agored i newidiadau amgylcheddol (boed yn newidiadau unigol, tymor byr neu'n newidiadau mwy cyffredinol yn sgil newid hinsawdd), llygredd, afiechydon, newidiadau yn chwaeth defnyddwyr, amrywiadau yn y farchnad, prisiau anwadal, ac ati.

Mae sector a pholisi amaethyddol y DU wedi wynebu **aflonyddwch sylweddol** ers refferendwm Brexit. Mae hyn yn cynnwys sefyllfaoedd sydd wedi tarfu ar gadwyni cyflenwi, ansicrwydd ynghylch taliadau yn y dyfodol, ac effeithiau ar y cyflenwad llafur. Mae'r sector amaeth hefyd wedi cael ei daro gan ansicrwydd gwleidyddol byd-eang, trafodaethau masnach â gwladwriaethau nad ydynt yn rhan o'r UE, **COVID-19**, y rhyfel yn Wcráin a'r cynnydd diweddar mewn chwyddiant.

Uchelgais? Tuag at sector amaeth gwydn

Mae aflonyddwch gwleidyddol, newid hinsawdd, rhyfel, diffyg diogeledd bwyd, tlodi, ansefydlogrwydd ariannol, bregusrwydd y sector amaethyddiaeth, a bregusrwydd yr amgylchedd yn bryderon byd-eang, hyd yn oed os yw'r union amgylchiadau yn amrywio. Fodd bynnag, mae sector amaeth Cymru yn unigryw

ac yn wahanol i sectorau amaeth gwledydd eraill y DU. Ni ellir cymhwyso polisi sy'n cael ei lunio ar gyfer un cyd-destun yn union yr un modd mewn cyd-destun arall. Rhaid i bolisi amaeth fynd i'r afael â materion uniongyrchol a materion hirdymor mewn modd gwydn, cyfannol, sydd wedi'i deilwra (Brexit and Agriculture, t.112-122).

Mae gwytnwch yn golygu bod polisiâu amaeth a pholisiâu canlyniadol yn gallu goddef digwyddiadau ysgytwol ac ymateb iddynt, gan addasu os oes angen, ond gan gynnal eu dibenion a'u nodau cyffredinol i raddau helaeth. Mae'n golygu datblygu gallu'r sector amaeth i addasu, ond hefyd pob agwedd sy'n berthnasol iddo - er enghraifft, ffermydd, ffermwyr, tir, dŵr, cymunedau, marchnadoedd, cadwyni cyflenwi, ac ati, yn ogystal â'r polisiâu, y cyfreithiau a'r strwythurau sy'n cefnogi ac yn llywio amaethyddiaeth. Er mwyn cyflawni hyn, dylai'r system gael ei seilio ar safbwyntiau cymdeithasol-ecolegol (gan adlewyrchu natur amlochrog amaethyddiaeth a'i chyd-ddibyniaeth ar gymdeithas ac ecoleg), **democratiaeth bwyd-amaeth** (gan gwmpasu lleisiau'r holl randdeiliaid), a **sero net** (oherwydd bod gan amaethyddiaeth y potensial i **gyfrannu at newid hinsawdd** a chael ei effeithio ganddo ar yr un pryd) (Brexit and Agriculture, t.127-141).

Casgliadau

Ni all polisi ac arferion amaethyddol ddatblygu ar wahân i'r hyn sy'n digwydd mewn mannau eraill - mewn cyfundrefnau neu ardaloedd eraill.

Rydym eisoes wedi gweld effeithiau cychwynnol materion fel y pandemig a Brexit, ond bydd y rhain yn parhau i gael effaith - er enghraifft, drwy effeithio ar y cyflenwad llafur a mynediad i'r farchnad, dewisiadau defnyddwyr ac adnoddau ariannol (ffermwyr, buddsoddwyr a defnyddwyr). Mae'r tagfeydd yng Nghaint a'r rhwystrau eraill heblaw am dariffau rhwng Prydain Fawr a'r UE (a Gogledd Iwerddon) yn broblemau go iawn. Gyda'u helw yn lleihau a'u gwaith papur yn cynyddu, mae rhai cynhyrchwyr a manwerthwyr wedi rhoi'r gorau i gyflenwi Gogledd Iwerddon a'r UE o ganlyniad.

I bobl eraill, nid yw'r effeithiau ond yn dechrau dod i'r amlwg, a byddant yn cynyddu'n sylweddol yn y dyfodol - er enghraifft, yn sgil newid hinsawdd, diffyg diogledd bwyd, chwyddiant a'r rhyfel yn Wcráin.

Er enghraifft, er nad yw'r DU wedi dioddef gormod hyd yma, mae achosion o dywydd eithafol yn dod yn fwyfwy cyffredin. Bydd y rhain yn cael effaith uniongyrchol ar Gymru, ac yn effeithio ar y wlad yn anuniongyrchol drwy effeithio ar y broses o gynhyrchu cynydu porthiant mewn gwledydd eraill. Yn ogystal, gallai

diffyg diogeledd bwyd byd-eang a ffoaduriaid hinsawdd gynyddu'r pwysau ar gadwyni cyflenwi. Fodd bynnag, wrth geisio lliniaru newid hinsawdd, rhaid sicrhau bod sero net hefyd yn cael ei gyflawni – yn unol â'r ymrwymadau domestig a rhyngwladol a wnaed.

Rhaid i amaethyddiaeth chwarae ei rhan yn y broses o leihau allyriadau, gan gynnwys drwy leihau nifer y da byw, byrhau cadwyni cyflenwi, lleihau'r ddibyniaeth ar danwydd ffosil, a rheoli tir mewn modd sy'n manteisio ar ei botensial i storio carbon.

Ar yr un pryd, mae'r rhyfel yn Wcráin yn cael effeithiau dinistriol yn y wlad honno, ond bydd y goblygiadau i'w teimlo ledled y byd. O ran amaethyddiaeth, mae miliynau o bobl yn cael eu dadleoli, a disgwylir y bydd miloedd yn dod i'r DU. Mae Wcráin a Rwsia ill dau yn ffynonellau pwysig o gnydau grawn, gwrtaithe ac olew blodau'r haul, felly bydd y rhyfel yn effeithio ar argaeledd bwyd a bwyd anifeiliaid ledled y byd. Mae hyn yn cael ei weld yng nghyd-destun yr anghydfod ynghylch **Odessa ac allforion grawn**. Mae Rwsia hefyd yn ffynhonnell bwysig o danwydd ffosil, sydd hefyd yn destun sancsiynau. Mae hyn yn cyfyngu ar fewnbynau amaethyddol ac yn eu gwneud yn ddrutach, ac mae'r sefyllfa hon wedi effeithio ar ddadleuon ynghylch cyflenwadau ynni. Roedd cyfran sylweddol o weithwyr amaethyddol a oedd yn gweithio llynedd o dan y fisa newydd ar gyfer gweithiwr tymhorol yn dod o Wcráin. O ganlyniad, bydd y rhyfel yn Wcráin yn cael effeithiau lluosog ar amaethyddiaeth. Bydd hefyd yn amlygu natur rymg-gysylltiedig cadwyni cyflenwi ledled y byd, a'r ddibyniaeth ar Wladwriaethau penodol. **Mae chwyddiant yn ychwanegu at y ffactorau hyn**, gan gynyddu costau mewnbynau ffermwyr (a phobl eraill sy'n rhan o'r gadwyn gyflenwi), gan hefyd leihau faint o arian sydd gan ddefnyddwyr i brynu bwyd.

Ac ni allwn weld eto beth yw'r effeithiau posibl eraill – er enghraifft, datblygu fframweithiau cyffredin yn y dyfodol, yn ogystal â'r modd y maent yn rhyngweithio â Deddf Marchnad Fewnol y DU; rôl y Ddeddf Rheoli Cymorthdaliadau; cytundebau masnach y DU, er enghraifft, ag Awstralia, Seland Newydd neu India; a gweithredu Bargaen Werdd yr UE a'r strategaeth 'O'r Fferm i'r Fforc'.

Ochr yn ochr â'r rhain, mae datblygiadau fel **Partneriaeth Amaethyddol y DU**, a allai fod yn **fforwm gwerthfawr** lle gall rhanddeiliaid fwydo i mewn i bolisiau ac arferion ledled y DU.

Mae'r enghreifftiau hyn yn tynnu sylw at yr angen i fod yn eangfrydig ac, yn y tymor hir, nodi digwyddiadau posibl a'u heffeithiau, monitro sefyllfaoedd, a myfyrio ar eu harwyddocâd o ran polisiau ac arferion ym maes amaeth. Rhaid sicrhau bod

y system yn wydn, ond rhaid gwneud hynny yng ngoleuni gwybodaeth newydd. Gall hyn olygu arallgyfeirio risg – er enghraifft, drwy osgoi cnydau ungnwd, hau cnydau sy'n addas ar gyfer gwahanol adegau o'r flwyddyn, cael cyflenwyr mewnbynnau o sawl gwlad, neu sicrhau cadwyni cyflenwi byr. Gallai olygu datblygu hunangynhafiaeth o ran ynni adnewyddadwy a, thrwy hynny, sicrhau sicrwydd ynni i ffermwyr ac i Gymru gyfan. Yn yr un modd, gallai hyn olygu symud i ffwrdd o ddibynnu ar wrtaith mwynol, a datblygu gwrtiaith (addas, ecogyfeillgar a diogel) sy'n seiliedig ar wastraff dynol ac anifeiliaid. Gallai olygu sefyllfa lle rhoddir cyfle i'r gwledydd datganoledig a rhanddeiliaid gyfrannu mewn modd gweithredol, strwythuredig i'r broses o drafod a gweithredu cytundebau masnach. Y lleiafswm sydd ei angen yw proses ailadroddol o fonitro, myfyrio/adolygu a diwygio/addasu os oes angen. Fodd bynnag, pe gellir cynnwys rhai o'r elfennau uchod ym mholisi amaethyddol Cymru (a meysydd polisi cysylltiedig), gellid lleihau'r angen am newidiadau mwy dramatig a mesurau adweithiol, a'r siociau a ddaw yn sgil hynny.